

Crynodeb

Datblygu pecyn cymorth y gall hunan-eiriolwyr ei ddefnyddio i wirio p'un a yw prosiectau'n cyflawni'r hyn maen nhw'n ei addo

Am y rhaglen DRILL

Roedd DRILL (Disability Research on Independent Living and Learning) yn rhaglen arloesol 5 mlynedd, ledled y DU dan arweiniad pobl anabl, ar gyfer pobl anabl ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Wedi'i lansio yn 2015, roedd y rhaglen yn cael ei rheoli gan bartneriaeth o Disability Action Northern Ireland, Disability Rights UK, Anabledd Cymru ac Inclusion Scotland.

Nod y rhaglen oedd datblygu gwell tystiolaeth am ddulliau sy'n galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Gellir defnyddio canfyddiadau'r prosiectau a gyllidwyd i lywio darpariaeth yn y dyfodol ar draws ystod eang o feysydd polisi, a rhoi mwy o lais i bobl anabl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae hwn yn un o gyfres o grynodbau o'r prosiectau a gefnogwyd gan DRILL. Mae adroddiadau terfynol, pecynnau cymorth a chrynodebau o'r holl brosiectau ar gael ar wefan DRILL yn www.drilluk.org.uk.

Trosolwg o brosiect y Pecyn cymorth hunan-eiriolaeth

Nod y prosiect hwn oedd dylunio pecyn cymorth hunan-eiriolaeth i'w ddefnyddio gan grwpiau lleol o bobl ag anableddau dysgu i wirio p'un a yw prosiect wedi bod yn llwyddiannus.

Fe'i cynlluniwyd hefyd i helpu i ddangos i'r grwpiau hyn sut

Dull

Cynhaliodd y prosiect Pecyn cymorth hunan-eiriolaeth weithdai gyda grwpiau hunan-eiriolaeth amrywiol, gan benderfynu beth oedd yn bwysig iddyn nhw a sut y byddent yn dangos bod eu prosiectau wedi gweithio.

Ymgynghorwyd hefyd â hwyluswyr Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ac unigolion sy'n talu am brosiectau hunan-eiriolaeth.

Canfyddiadau

Nododd prosiect y Pecyn cymorth hunan-eiriolaeth nifer o ffyrdd o sicrhau bod prosiectau'n cael eu harwain yn wirioneddol gan aelodau.

Mae'n rhaid i aelodau'r prosiect weithio o rywbeth sy'n bwysig iddyn nhw ac sydd â'r gallu i gael ei ddatblygu yn nod y gellir ei gyflawni. Gellir casglu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol megis adroddiadau yn y wasg, grwpiau ffocws, cyfryngau cymdeithasol a chyfweliadau i gefnogi nod y prosiect.

Cynhyrchodd y prosiect 16 cerdyn a oedd yn awgrymu nodau ar gyfer prosiectau, gan gynnwys gwell gofal iechyd, mynd allan mwy a bod yn fwy hyderus. Gall aelodau'r prosiect ddefnyddio'r rhain i helpu i bennu amcanion eu prosiect.

O ran cynllunio, mae'n bwysig asesu cyllid, aelodau, rheolaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer prosiect. Gellir ysgrifennu'r penawdau hyn, a gall aelodau ychwanegu eu hatebion eu hunain.

Tra mae'r prosiect yn mynd rhagddo, mae cyfarfodydd rheolaidd yn bwysig i lwyddiant y prosiect. Mae trafodaethau ynghylch p'un a yw'r prosiect ar y trywydd iawn, unrhyw wybodaeth am sut mae'n mynd, sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn dda a bod pob aelod yn cael ei gynnwys mewn unrhyw benderfyniadau mawr yn allweddol.

Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, mae'n bwysig sicrhau bod rhywun yn cael ei ddirprwyo i ysgrifennu adroddiadau a bod rhywun i wirio adroddiadau cyn y dyddiad cau.

Mae llawer o grwpiau hunan-eiriolaeth yn gwneud pethau gwych, ond nid ydynt cystal yn rhoi chyhoeddusrwydd i'w gwaith. Mae'n bwysig bod syniadau a chanfyddiadau allweddol y prosiectau hyn ar gael yn eang.

Canfyddiadau (parhad)

Mae hefyd yn bwysig bod pobl fel llunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol ym maes ymchwil a grwpiau hunan-eiriolaeth eraill yn cael gwybod am y canfyddiadau. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi argymhellion prosiectau hunan-eiriolaeth ar waith.

Argymhellion

Fe wnaeth prosiect y Pecyn cymorth hunan-eiriolaeth amlinellu llawer o argymhellion, ac mae rhai ohonynt wedi'u rhestru yma. Mae'r holl argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad llawn, ac mae dolen iddo isod.

- Defnyddio polisi MIRROR Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i bennu egwyddorion hunan-eiriolaeth
- Gwnewch yn siŵr bod gan bawb lais a'u bod yn rhan o'r prosiect bob amser
- Defnyddio'r 16 cerdyn a ddarperir gan y pecyn cymorth i benderfynu ar nodau'r prosiect
- Mae cyfarfod yn rheolaidd yn bwysig o ran sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei amcanion a bod popeth yn mynd rhagddo'n ddidrafferth
- Dylid cael caniatâd bob amser wrth gymryd a defnyddio lluniau
- Mae cael adroddiad hirach yn ogystal ag adroddiad hawdd ei ddarllen yn gwneud prosiectau'n fwy cynhwysol
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi disgrifiadau cryno o nodau a deilliannau'r prosiect
- Dylid defnyddio'r pecyn cymorth wrth benderfynu ynglŷn â chyllido, mae gwirio prosiect yn gwnaethoch chi gytuno arno a phenderfynu a oedd y prosiect yn llwyddiant.

Adroddiad terfynol

Datblygu pecyn cymorth y gall hunan-eiriolwyr ei ddefnyddio i wirio p'un a yw prosiectau'n cyflawni'r hyn maen nhw'n ei addo

Cliciwch ar enw'r adroddiad i ddarllen yr adroddiad llawn.

Partneriaid y Prosiect

**Pobl yn Gyntaf
Cymru Gyfan**



**Cwmni Buddiannau
Cymunedol Barod**



**Janet Walmsley
Associates**

JanWalmsleyAssociates